

prospect

CEFNOGI

# Treftadaeth

## Y camau nesaf



# Llais i dreftadaeth

## Mae Prospect yn falch o gynrychioli dros 10,000 o aelodau proffesiynol ac arbenigol sy'n gweithio yn y sector treftadaeth.

Maent yn gweithio mewn meysydd curadurol, cadwraeth, archaeoleg a gwasanaethau ymwelwyr. Maent yn gweithio mewn amgueddfeydd ac orielau, gerddi hanesyddol, safleoedd treftadaeth, ymddiriedolaethau archaeolegol, treftadaeth naturiol, casgliadau ac archifau llyfrgell unigryw.

Mae'r cyfraniad a wnânt i'n cymdeithas ac i'n heconomi yn unigryw ac yn amhrisiadwy.

Ond mae cyflogau'r sector treftadaeth, yn enwedig pan ystyrir cymwysterau, sgiliau ac ymrwymiad, yn ddychrynllyd o isel. Mae amodau gwaith a llwybrau gyrfa hefyd yn aml yn is o lawer na'r hyn y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl.

Mae'r daflen hon yn nodi pam mae treftadaeth mor bwysig, a'r hyn y mae Prospect yn ei wneud i sicrhau bod gweithwyr treftadaeth yn cael eu cydnabod yn ehangach ac yn cael eu gwobrwyo'n decach drwy ein hymgyrch Treftadaeth o'r Radd Flaenaf - Cyflogau o'r radd isaf.

Os ydych chi'n aelod o Prospect, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n ei rhannu lle bynnag y gallwch chi, er mwyn i ni allu meithrin dealltwriaeth a chefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ein diwydiant treftadaeth a'r gweithwyr sy'n helpu i'w gyflawni.

Os ydych chi'n gweithio ym maes treftadaeth ac nad ydych chi'n aelod o Prospect eto, gobeithio y byddwch chi'n ymuno â ni.





# Treftadaeth o'r radd flaenaf

Mae'r cyfraniad mae gweithwyr treftadaeth yn ei wneud i'n cymdeithas ac i'n heconomi yn amhrisiadwy.

## Cyfoethogi ein bywydau

Dangoswyd bod amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth yn:

- gwella iechyd a llesiant unigolion
- cefnogi addysg a chynhwysiant cymdeithasol
- hybu balchder lleol a chydlyniant cymunedol.

Canfu un astudiaeth fod pobl sy'n mynd i amgueddfeydd neu lyfrgelloedd 20 y cant yn fwy tebygol o adrodd eu bod mewn iechyd da. Mae pedwar o bob pump o bobl yn dweud bod safleoedd a phrosiectau treftadaeth yn gwneud eu tref neu ddinas yn "lle gwell i fyw".

## Ased economaidd

Mae treftadaeth hefyd yn rhan hanfodol o'r economi – mae'r gwerth y mae'n ei hychwanegu at ein heconomi yn debyg i amaethyddiaeth, cynhyrchu ffilm a theledu, neu'r diwydiant moduro. Mewn un flwyddyn, mae ein treftadaeth yn denu miliynau o ymwelwyr o dramor i wario biliynau o bunnoedd yma o ganlyniad.

Mae dadansoddiadau wedi dangos bod yr arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn sefydliadau a phrosiectau treftadaeth yn sicr yn talu amdano'i hun yn y twf a'r ffyniant ychwanegol a gynhyrchir – weithiau sawl gwaith drosodd. Mae'r effeithiau hyn yn arbennig o bwysig i ardaloedd o amddifadedd uchel a rhanbarthau y mae gwleidyddion yn dweud eu bod am eu gwella.

SEAN SPENCER/HULL NEWS & PICTURES



KEVIN COOPER PHOTOLINE

Drwy ganolbwyntio ar warchod, defnyddio ac ailddefnyddio asedau gwerthfawr, mae'r sector treftadaeth hefyd yn dangos egwyddorion twf cynaliadwy a'r "economi gylchol".



# Gweithlu o’r radd flaenaf

Mae hyn i gyd yn bosibl o ganlyniad i’r gweithlu treftadaeth, gan gynnwys:

- archaeolegwyr
- archifyddion
- gwarchodwyr a churaduron
- botanegwyr a garddwyr
- arbenigwyr addysg ac allgymorth
- eraill sy’n gweithio mewn amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a gerddi hanesyddol, o staff blaen tŷ i dechnegwyr hanfodol
- syrfewyr, penseiri, gweithwyr adfer proffesiynol, gweithwyr crefft a gweithwyr medrus ac arbenigol eraill sy’n cefnogi prosiectau treftadaeth

Maent yn gweithio ar draws amrywiaeth o wahanol sefydliadau, mawr a bach, yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ledled y wlad, y gwledydd datganoledig a’r rhanbarthau.

Ar sail y gwerth economaidd maen nhw’n ei greu, mae gweithwyr treftadaeth ymysg y rhai mwyaf cynhyrchiol yn y wlad, gyda phob un yn ychwanegu cyfartaledd o £67,000 y flwyddyn at ein ffyniant.


Ar sail y gwahaniaeth maen nhw’n ei wneud i’n bywydau i gyd, ein cymunedau a’n hamgylchedd, mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy.

## Cyflog o’r radd isaf?

Er gwaethaf hyn, mae cyflogau yn ein sector treftadaeth yn aml yn ddychrynllyd o isel.

Mae llawer o sefydliadau treftadaeth yn dibynnu ar nifer fawr o weithwyr sy’n cael llai na’r Cyflog Byw sy’n cael ei gyfrifo’n annibynnol, neu sydd prin yn uwch na hynny. Mae dadansoddiad Prospect yn awgrymu mai dyma sefyllfa rhwng 1 o bob 5-10 o weithwyr mewn amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a gerddi botanegol.

Hyd yn oed yn uwch na’r lefelau hyn, mae cyflogau fel arfer ymhell o fod yn unol â lefelau sgiliau, arbenigedd a phrofiad gweithwyr. Mae gan gyfran uchel o weithwyr treftadaeth gymwysterau graddedigion neu ôl-radd ond nid yw cyflogau ar lefel mynediad yn adlewyrchu hyn ac yn aml nid oes llawer o gyfle i ddyrchafiad neu ddilyniant.



Hefyd, nid yw amodau gwaith bob amser fel y dylent fod. Mae ansicrwydd swyddi yn gyffredin. Mae rhai rolau’n gofyn am oriau hir ar fyr rybudd. Gall lefelau straen fod yn uchel, gan arwain pobl i gwestiynu eu dewis o yrfa.

Mae’r argyfwng costau byw presennol ac effeithiau pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at faterion hirsefydlog cyflogau isel a thanariannu yn y sector, ac rydyn ni’n ymgyrchu i’w datrys.




# Ein nodau ar gyfer treftadaeth

Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bryd i ni werthfawrogi'r arbenigwyr sy'n dod â chymaint o werth i'n bywydau ac i'n heconomi. Mae hyn yn golygu:

## Gwerthfawrogi a buddsoddi mewn treftadaeth

Mae cyllid cyhoeddus ar gyfer treftadaeth wedi cael ei ystyried yn rhy aml fel targed hawdd ar gyfer torri costau. Mae'r cyfnodau dilynol o galedi ar lefelau cenedlaethol a lleol wedi golygu ei fod yn cael ei dorri at yr asgwrn. Ar ben hyn, cafodd argyfwng Covid effaith ddinistriol ar ffynonellau incwm eraill.

Mae angen i ni weld mwy o werth a chydnabyddiaeth yn cael ei roi i weithwyr treftadaeth a threftadaeth, gyda chynnydd parhaus mewn cyllid a buddsoddiad i ailadeiladu ei chadernid, adfer asedau na ellir eu disodli ac adfer twf a gollwyd mewn refeniw a chyflogaeth.

Mae tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn arwain at enillion sylweddol i'r economi a chyllid cyhoeddus, yn ogystal â thrawsnewid llefydd a chymunedau.

## Gwobrwyo sgiliau ac arbenigedd

CMae capiau a rheolaethau sydd wedi'u gosod yn ganolog wedi golygu nad yw llawer o sefydliadau treftadaeth y sector cyhoeddus – o amgueddfeydd, orielau a gerddi i asiantaethau allweddol – yn gallu recriwtio neu gadw'r gweithlu sydd ei angen arnynt, neu helpu staff sy'n gweithio'n galed drwy'r argyfwng costau byw.



YORK ARCHAEOLOGY

Mae angen mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr o ran cyflogau, telerau ac amodau, er mwyn galluogi cyflogau i adlewyrchu sgiliau, cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad yn well.

Mae angen cyfuno hyn â chynllun i godi lefelau cyflog gweithwyr treftadaeth ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael cyflog sy'n uwch na'r Cyflog Byw o leiaf, a dod â chyflogau gweithwyr proffesiynol ac arbenigol yn unol â'u cymwysterau a'u profiad.




Sganiwch y QR hwn ar gyfer mynediad at adnoddau ymgyrchus
(Dolen ar gael yn Saesneg yn unig)

# Ymunwch â ni

## Gyrfaoedd cynhwysol a chynaliadwy

Yn ogystal â mynd i'r afael â chyflogau isel, mae angen i ni wella diogelwch swyddi, llwybrau gyrfa a gweithio hyblyg sy'n gweithio i weithwyr yn ogystal â chyflogwyr.

Mae gormod o weithwyr treftadaeth yn teimlo'n gaeth mewn rolau lefel mynediad neu'n teimlo bod eu galwedigaeth yn anghydnaws â bod yn berchen ar gartref, dechrau teulu neu gynilo ar gyfer pensiwn. Ni ddylai gweithio ym maes treftadaeth fod yn opsiwn i bobl heb gyfrifoldebau teuluol neu'r rheini sydd â mathau eraill o sicrwydd ariannol yn unig.

Rydym am weld arferion gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd yn cael eu prif ffrydio a mecanweithiau datblygu cyflog ystyrlon i sicrhau bod staff treftadaeth yn gallu datblygu eu gyrfaoedd a'u henillion.

Dyma beth mae Prospect yn gweithio i'w gyflawni – yn ein trafodaethau gyda chyflogwyr yn ogystal â lobïo llywodraethau ac ymgyrchu ehangach.

Rydym wedi llwyddo i ennill codiadau cyflog sylweddol a gwell telerau ac amodau i lawer o'n haelodau ym maes treftadaeth – rydym eisiau adeiladu ar hyn a'i ymestyn.

Rydym hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o werth ein gweithwyr treftadaeth ymysg gwleidyddion, llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Cyhoeddwyd gan Prospect
© Prospect, Gorffennaf 2023 23-0043/Jul23/500-CHP

Os ydych chi eisoes yn aelod, gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'ch cangen a'ch trefnydd llawn amser penodedig i drafod y camau y gall eich cangen eu cymryd i gefnogi'r ymgyrch hon.

Tarwch olwg ar ein hymgyrch Linktree – **linktr.ee/prospectheritage** – ar gyfer rhagor o adnoddau'r ymgyrch, a dolenni i gamau sydyn ac effeithiol y gallwch eu cymryd i gefnogi a thyfu'r ymgyrch, fel:

- Ysgrifennu at eich AS/Aelod o'r Senedd/ASA: gan ddefnyddio llythyrau templed y gallwch eu hanfon i ymgysylltu â'ch cynrychiolwyr gwleidyddol.
- Cynnal cyfarfodydd yn y gweithle a rhannu deunyddiau ymgyrchu gyda chydweithwyr, ymddiriedolwyr, ac aelodau bwrdd.
- Rhwydweithio â chynrychiolwyr Prospect eraill ac aelodau ar draws y sector.
- Annog eich cydweithwyr i ymuno â Prospect a'r ymgyrch.

Gallwch hefyd gael gwybod sut i gymryd mwy o ran mewn ymgyrchu a threfnu ar lefelau lleol a chenedlaethol **prospect.org.uk/get-involved** a hyd yn oed gwneud rhywfaint o hyfforddiant ymgyrchu pwrpasol Prospect ar gyfer eich cangen, datblygu diddordeb yn y gweithle, a chodi eich llais yn y gwaith.

## Os nad ydych chi eisoes yn aelod

Felly beth am gofrestru heddiw a dechrau ychwanegu eich llais at ddyfodol y sector treftadaeth – **prospect.org.uk/join**